# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3)-18-08 (p.3) : 11 Rhagfyr 2008

### Diben

Mae'r papur hwn yn crynhoi gweithgareddau Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod blwyddyn galendr 2008 y Trydydd Cynulliad.

### Trosolwg o weithgareddau'r pwyllgor

Yn ystod blwyddyn galendr 2008, cynhaliodd y pwyllgor 17 o gyfarfodydd ffurfiol. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cynnal nifer o ymweliadau rapporteur ac ymweliadau prosiect fel rhan o'i ymchwiliadau i 'Drefniadau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru' ac i 'Dlodi Plant: Ai Addysg yw'r Ateb?'

### Ymchwiliadau

Yn ystod 2008, mae'r pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau i:

Drefniadau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb?

Gweithredu Cynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r pwyllgor wedi cwblhau dau o'r ymchwiliadau hyn ac wedi adrodd arnynt. Disgwylir i ragor o dystiolaeth gael ei gymryd ar ymchwiliad y pwyllgor i 'Weithredu Cynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn 2009.

### Canlyniadau'r Ymchwiliadau

Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fod yn cytuno'n llwyr â naw o argymhellion y pwyllgor, yn ei adroddiad ar 'Drefniadau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru' a'i fod yn cytuno'n rhannol neu mewn egwyddor â'r tri arall. Mynegodd aelodau'r pwyllgor siom nad oedd y Llywodraeth yn cytuno'n llwyr â'i argymhelliad sylfaenol y dylai sefydlu uned eiriolaeth a ariennir yn ganolog gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth mewn ardaloedd lleol. Bydd y pwyllgor yn ceisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion yr adroddiad hwn yn y flwyddyn newydd.

Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i adroddiad y pwyllgor ar 'Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb?' yn y flwyddyn newydd.

### Gwaith craffu

Yn ogystal â chraffu ar Weinidogion a thystion yn ystod ei ymchwiliadau, mae'r pwyllgor wedi craffu ar Gomisiynydd Plant Cymru o ran ei adroddiadau blynyddol am 2006-7 a 2007-8. Mae'r pwyllgor hefyd wedi craffu ar y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mewn perthynas â'r adroddiad diwethaf, a chyllideb 2008-9 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Canlyniadau'r gwaith craffu

Mae'r gwaith craffu hwn wedi arwain at nifer o ganlyniadau penodol, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

Comisiynydd Plant Cymru yn cytuno i roi adborth ar yr ymdrechion i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau eraill sy'n cysylltu â phlant a phobl ifanc.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cytuno i roi adborth i'r pwyllgor o'r trafodaethau sydd ar ddod gyda Chomisiynydd Plant Cymru ynghylch sut mae Comisiynydd Plant Cymru'n rheoli ei gyllideb, gan drafod materion penodol a godwyd gan y pwyllgor.

Y Gweinidog yn cytuno i roi graddfa amser i'r pwyllgor ar gyfer rhoi safonau gofynnol ar gyfer cyflwr toiledau ysgol mewn lle.

Y Gweinidog yn cytuno i roi manylion i'r pwyllgor am gynnwys y tudalennau rhianta sydd i'w rhoi ar wefan newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y Gweinidog yn cytuno i roi proffil ariannu i'r pwyllgor yn y Cynllun Gweithredu Rhianta a'r rhaglenni sydd wedi deillio ohono dros y tair blynedd diwethaf.

### Hyrwyddo ac ehangu'r rhan mewn datganoli

Mae'r pwyllgor wedi ceisio hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli, gan gynnal cysylltiadau gwerthfawr â rhanddeiliaid drwy ohebiaeth ysgrifenedig a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r pwyllgor wedi clywed tystiolaeth yn uniongyrchol gan bobl ifanc, drwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol a thrwy ymweliadau rapporteur. Mae aelodau'r pwyllgor hefyd wedi ymweld â phrosiectau fel Prosiect On

Track Tylorstown a'r Ganolfan Partneriaeth ar gyfer Rhieni Ifanc yn y Barri, sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i blant a phobl ifanc.